Gwasanaeth Ynni
Energy Service

# Nodyn cyngor technegol

## Gwefru cerbydau fflyd gartref

**Jane Forshaw**

### Cefndir

Mae manteision wrth archwilio'r categori hwn o fflyd y sector cyhoeddus, er enghraifft:

- Y gostyngiad mewn allyriadau o gymudo i ddepo,
- Adroddwyd am welliannau o ran cadw staff, yn enwedig ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol i oedolion,
- Mae cerbydau sy'n cael eu dyrannu i staff o bosibl yn cael mwy o ofal a sylw na cherbyd cronfa.




Cydnabyddir na fydd un ateb unigol yn addas i bob awdurdod lleol. Mae bob corff sector cyhoeddus yn gwasanaethu mewn cyd-destun daearyddol gwahanol a thir amrywiol, ac mae hyn yn effeithio ar ystyriaethau cerbydau trydan. Yn ein profiad ni mae anghysondeb hefyd mewn polisïau ac ymarfer Adnoddau Dynol.

Wrth gwrs, bydd gan y cerbydau ddyletswyddau gwahanol ar achlysuron gwahanol a gofynion gwahanol o ran prif lwythi e.e. cerbyd rheoli adeiladau o'i gymharu â cherbyd atgyweirio tai. Mae ystyriaethau hefyd o ran a oes gan aelod o staff gyfleuster parcio wedi ei neilltuo oddi ar y stryd neu hyb gwefru cyfagos neu gyfleuster arall.

Mae'r nodyn hwn yn cwmpasu cyngor ar wefru gartref ar gyfer ceir fflyd a cherbydau masnachol ysgafn. Nid yw'n cynnwys cerbydau a ddarperir o dan gynlluniau ceir prydles neu geir aberthu cyflog neu unrhyw gar a ddyrannir i weithiwr heb gyfyngiadau ar ei ddefnydd preifat ("car cwmni" at ddibenion treth i bob pwrpas). Cwmpasir y rhain gan nodyn cyngor ar wahân.

Mae'n cynnwys cerbydau sydd â mynediad i ddreif bwrpasol ac atebion posibl i'r gweithwyr hynny nad oes ganddynt fynediad i'w dreif eu hunain a'u gwefrydd cartref.

### Gweminar ar Wefru Gartref

Mae'r cyngor hwn yn seiliedig ar weminar sy'n cynnwys cyfranwyr y sector cyhoeddus a phreifat sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r trawsnewid hwn eu hunain, ynghyd ag adran o Gwestiynau Cyffredin sy'n canolbwyntio ar sut y gellid ystyried y trawsnewid hwn.

Cafodd y weminar fewnbynnau gan (amseroedd mewn cromfachau):

- **Tracey Richardson, Cyngor Dinas Leeds (07:50).** Tracey.Richardson@leeds.gov.uk

  Mae gan yr Awdurdod hwn 333 o gerbydau trydan batri. Hyd yn hyn maent wedi newid 112 o geir trydan batri i wefrwyr cartref.

- **Matt Dale, Arweinydd Trafnidiaeth ar gyfer Mitie Plan Zero, Mitie (18:00).** Matthew.Dale1@mitie.com

  Mae Mitie wedi gwneud cynnydd enfawr o ran yr agenda hon gan gynnwys gweithio gyda'u

cleientiaid i ysgogi'r gwaith o osod seilwaith gwefru.

Mae'r rhan fwyaf o'u cerbydau yn mynd adref. Mae ganddynt 6,000 o geir a cherbydau masnachol ysgafn ac mae ganddynt 2,000 o gerbydau gwefru gartref a 1,800 o gerbydau trydan batri wedi'u harchebu.

- **Izzy Maher, Cyngor Dinas Lancaster (1:06).** imaher@lancaster.gov.uk

  Roedd y mewnbwn gan Lancaster yn cynnwys atebion posibl ar gyfer cerbydau sy'n mynd adref ond yn methu cael eu gwefru ar ddreif breifat.

  Bu Izzy hefyd yn rhannu ei phrofiad o ran ceir cronfa sy'n cynnwys cynnig y ceir cronfa ar gyfer eu defnyddio yn y gymuned gyda'r nos ac ar benwythnosau

Gwyliwch y weminar (1 awr 45 munud)

## Cwestiynau Cyffredin am Wefru Gartref

**1. Ble fyddech chi'n dechrau wrth drawsnewid y cerbydau hyn?**

Mae'n mynd i gymryd dipyn o amser i drawsnewid yr holl gerbydau, felly mae'n gwneud synnwyr i ddechrau gyda'r rhai sydd hawsaf i'w trawsnewid, fel y gallwch ddysgu a datblygu ar gyfer y rhai anoddach. Fel arfer, byddai'r rhain yn cynnwys cerbydau milltiroedd is (ceir cronfa a faniau bach/canolig yn gyffredinol) a gweithwyr â lle parcio oddi ar y ffordd.

**2. Beth fyddai eich cynghorion pennaf ar gyfer trawsnewid y cerbydau hyn?**

Dechreuwch drwy edrych ar filltiroedd a phrif lwyth - a meddyliwch o ddifrif am gael gwared ar annibendod (yn enwedig o faniau gwaith). Bydd pob 100 kg o lwyth yn lleihau'r pellter teithio tua 5% - felly beth sydd angen iddyn nhw ei gario i wneud eu gwaith y tro cyntaf, 95% o'r amser.

Mae hyn yn cynnwys ystyried a ellir danfon offer i'r safle, yn hytrach na'i gasglu o'r depo a gallai gynnwys gweithio'n agos gyda chyflenwyr sy'n cynnig gwasanaeth sy'n cynnwys rheoli cynnwys y fan (e.e. Gwasanaethau a Reolir Travis Perkins). Hefyd gallai fod ffyrdd eraill o wneud teithiau dosbarthu byr lle mae nwyddau a deunyddiau yn fach (e.e. beiciau e-Cargo).

Hyfforddwch eich gyrwyr yn dda – bydd y mabwysiadwyr cynnar naill ai'n eiriol dros y lleill neu yn gwneud bywyd yn anoddach nes ymlaen.



Fflyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae cefnogaeth y defnyddwyr yn hanfodol a dylai gyrwyr sy'n dangos diddordeb mewn cael cerbyd trydan (EV) gael eu hystyried yn gyntaf.

Darparwch gardiau gwefru (e.e. allstar one electric) wrth gefn i ganiatáu'r defnydd achlysurol o rwydweithiau gwefru cyhoeddus. Defnyddiwch systemau sy'n seiliedig ar ap (e.e. Zap-Pay) pan fyddwch yn sicr y bydd hyn yn dderbyniol i'r defnyddwyr.

Bydd angen llawer o ddata arnoch – ond dylech gael hyn o delemateg cerbydau, a dylai gynnwys amser aros mewn gwahanol leoliadau, amseroedd cychwyn a lleoliadau allweddol lle mae'r cerbyd yn treulio llawer o amser. Gall hyn wedyn lywio eich strategaeth wefru.

**3. Beth yw'r prif ystyriaethau wrth osod pwyntiau gwefru cartref?**

Mae angen i chi wneud arolwg defnydd trydan i bennu addasrwydd ar gyfer eich darparwr pwynt gwefru – gall fod yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i wneud hyn eich hun. Yn ogystal â man wedi'i neilltuo ar gyfer parcio'r cerbyd i'w wefru bydd angen i chi hefyd ganfod a oes cysylltiad Wi-Fi digon cryf i brosesu'r holl ddata swyddfa gefn.

Bydd angen i'ch polisi gwmpasu materion ehangach megis a ellir defnyddio'r pwynt gwefru ar gyfer cerbydau eraill, sut y byddwch yn ad-dalu am drydan ac a fyddwch yn cael gwared, adleoli neu adael pwynt gwefru yn ei le os yw'r gweithiwr naill ai'n gadael y gwaith neu'n symud tŷ. Mae'n rhatach yn aml i adael y gosodiad yn ei le.

Mae angen i chi sicrhau mai dim ond unwaith y mae angen i chi gloddio gan fod hyn yn ddrud ac yn aflonyddgar ac mae angen i chi ddarparu'r pwynt gwefru cyn i'r cerbyd gyrraedd a'i brofi gyda cherbyd arall (yn ddelfrydol hyfforddi'r gyrrwr ynghylch sut i'w ddefnyddio - cyn i'r cerbyd gyrraedd).

Mae cost cael gwefrydd cartref, gan gynnwys yr holl waith cysylltiedig oddeutu £1,700 – £2,000.

**4. A fu problemau ynghylch defnyddio gwefrwyr cartref heb ganiatâd? A sut fyddech chi'n gwybod?**

Hyd yma ar y cyfan nid yw hyn wedi bod yn broblem i sefydliadau sydd wedi gosod y rhain. Mae'r rhan fwyaf yn atal defnydd preifat ar hyn o bryd - ond efallai y bydd yn rhaid i hynny newid gan fod mwy o bobl yn berchen ar gerbydau trydan eu hunain hefyd. Mae gan rai cerbydau/pwyntiau gwefru feddalwedd gymharol soffistigedig sy'n cofnodi pa gerbyd sydd wedi'i wefru - ond nid yw hynny ar gael yn yr holl systemau sydd ar y farchnad ar hyn o bryd. Mae'n debygol y gall hyn fod yn rhywbeth y gellir ymdrin ag ef trwy gardiau adnabod amledd radio (RFID) yn y dyfodol.

Dylech gael data da ar filltiroedd hanesyddol a data cyfredol ar y defnydd o ynni / telemateg. Mae'n gymharol rwydd i ganfod a yw swm y trydan a ddarparwyd drwy'r pwynt gwefru yn fwy na'r hyn a fyddai wedi bod yn ddigonol i'r cerbyd wneud y teithiau a gofnodwyd.

**5. Gyda chostau ynni yn cynyddu sut allwch chi sicrhau nad yw gweithwyr ar eu colled pan fyddant yn aros am ad-daliad?**

Ymdrinnir â hyn mewn ffyrdd gwahanol - ond un ffordd yw talu cyfradd milltiroedd i'r gyrwyr yn wythnosol.

**6. Beth yw'r ystyriaeth bwysicaf y mae pobl yn ei fethu?**

Mae systemau TG data a swyddfa gefn yn bwysig – felly pan fyddwch yn pennu eich pwyntiau gwefru mae angen i chi sicrhau y bydd gennych fynediad at ddata o ansawdd uchel, nid yn unig ar y kWh o drydan a gyflenwir – ond hefyd ar delemateg y cerbyd.

Gall patrymau gwefru fod o gymorth hefyd i greu darlun cynhwysfawr o sut mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio a'i wefru. Er enghraifft, mae Mitie wedi creu offeryn e-insights i ddadansoddi defnydd.

**7. Pa ddewisiadau sydd i gerbydau lle nad oes lle parcio gartref?**

Gallai hyn fod yn broblem - ond mae sawl ateb gwahanol ac mae'n debygol y bydd angen i fflydoedd ddefnyddio sawl un ohonynt i ddiwallu eu holl anghenion.

Mae'r atebion yn cynnwys: dychwelyd i'r depo gyda'r nos; darparu gwefru cymunedol naill ai'n agos at gartrefi gweithwyr neu'n agos at leoliadau allweddol lle mae'r cerbydau'n treulio llawer o amser; gwefru chwim a defnyddio cyfleusterau gweithle sefydliadau eraill.

Mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i sefydliadau sydd â phwyntiau gwefru yn y gweithle rannu'r rhain ag eraill dros nos er mwyn hwyluso gwefru fflydoedd eraill (mae hwn yn rhywbeth a fyddai o bosibl yn gweithio'n dda yn y sector cyhoeddus).

Mae yna hefyd ap JustPark sy'n eich cyfeirio at gyfleusterau gwefru cyfagos (e.e. meysydd parcio archfarchnadoedd) ond hefyd dreifiau preifat cartrefi cyfagos y gellir eu "rhentu" ar gyfer gwefru.

Mae rhai awdurdodau lleol yn caniatáu gosod offer 'cable tidy' fel Gul-e yn y palmant, mae eraill yn caniatáu defnyddio 'cable tidy' ac mae ambell un yn gwrthod caniatáu i geblau groesi dros wyneb palmant ac maent yn dueddol o anfon llythyrau rhybudd. Nid yw'r dull o weithredu yn gyson o gwbl ledled y DU.

Mae rhai polisïau yswiriant cerbydau trydan yn ymdrin â'r perygl o faglu sy'n gysylltiedig â'r ceblau gwefru, ond nid pob un, ond y cyngor yw y gallai fod yn rhywbeth a gynhwysir yn yswiriant atebolrwydd personol domestig.

**8. A oes mwy o ddulliau gweithredu arloesol?**

Mae llawer o enghreifftiau da ond dyma ddau o'r goreuon a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas Lancaster.

a. Gweithio gyda menter gymdeithasol leol (chargemystreet), i ddarparu hybiau gwefru cymunedol mewn lleoliadau lle mae cerbydau cyngor yn treulio llawer o'u diwrnod gwaith. Talodd y fenter gymdeithasol am y seilwaith gyda'r Cyngor yn cael hawliau defnydd unigryw yn ystod y dydd gyda'r pwyntiau gwefru ar gael i'r cyhoedd dros nos ac ar benwythnosau.

b. Rhoi ceir cronfa EV a ddarperir gan y clwb ceir  cenedlaethol (co-wheels) yn lle'r ceir cronfa presennol. Mae staff yn defnyddio eu bathodynnau adnabod er mwyn defnyddio'r cerbydau ac mae'r cerbydau ar gael i aelodau'r cyhoedd ar benwythnosau a gyda'r nos.

Mae system archebu dda yn hanfodol - gall ymddangos yn ddrud ond mae cyfanswm yr hawliadau milltiroedd i lawr 60% yn y flwyddyn gyntaf.


Fflyd Cyngor Dinas Casnewydd

Ariannir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ("GYLIC") gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Cyflawnir GYLIC gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y "Partneriaid Cyflawni"). Mae'r adroddiad hwn (yr "Adroddiad") wedi cael ei lunio gan y Partneriaid Cyflawni ac, er bod y farn a fynegwyd ynddo yn cael ei rhoi yn ddidwyll yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, nad yw'n atebol am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegwyd yn yr Adroddiad; (ii) bwriad yr Adroddiad yw darparu arweiniad cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai unrhyw un sy'n cael yr Adroddiad ddibynnu arno yn lle cael eu cyngor eu hunain gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) felly dylai unrhyw berson sy'n cael yr Adroddiad hwn gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu gyngor proffesiynol perthnasol arall i'r graddau y mae angen arweiniad penodol arno ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu ymatal rhag eu cymryd, mewn cysylltiad ag unrhyw brosiect, menter, cynnig, ymwneud ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gall gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad fod yn berthnasol; a (iv) nid yw'r Partneriaid Cyflawni yn atebol mewn cysylltiad â'r Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw wall neu hepgoriad sy'n ymwneud â'r Adroddiad.